# Datganiad sefyllfa ‘Engage to Change’ mewn ymateb i argyfwng COVID-19 – 13 Mai 2020

Mae partneriaid prosiect ‘Engage to Change’ wedi rhoi dull gweithredu mewn grym i alluogi’r prosiect i barhau gan gymryd i ystyriaeth ganllawiau llywodraeth, diogelwch pobl ifainc, eu teuluoedd, staff y prosiect ac amgylchiadau unigol.

Mae Grŵp y Bartneriaeth yn cyfarfod ar-lein yn wythnosol i gynllunio ar gyfer y dyfodol a sicrhau bod cyfleoedd ar gael ar ôl COVID-19.

## Cyfathrebu â rhanddeiliaid a chyfranogwyr y prosiect

Defnyddiwn amrywiaeth o lwyfannau rhithgyfarfodydd, e-bost, apiau a galwadau ffôn i hwyluso gweithgaredd a chynnal cyfathrebu rheolaidd â phartneriaid y prosiect, cydweithwyr o fudiadau eraill, pobl ifainc, teuluoedd a chyflogwyr.

## Mae gweithgareddau cyfredol y prosiect yn cynnwys

- Derbyn datganiadau diddordeb a phrosesu atgyfeiriadau newydd.
- Gwneud asesiadau a phroffiliau galwedigaethol.
- Rhoi gwybodaeth i gyfranogwyr a’u teuluoedd i’w galluogi i wneud dewisiadau gwybodus.
- Cefnogi cyfranogwyr i osod nodau, cwblhau cyrsiau achrededig, datblygu CVau, ymarfer cyfweliadau, chwilio ac ymgeisio am swyddi gwag ayyb os ydynt yn dymuno gwneud hynny.
- Rhoi cefnogaeth hyfforddwr swydd i gyfranogwyr mewn bodolaeth sy’n parhau i gael eu cyflogi fel gweithwyr allweddol.
- Cynnig cefnogaeth a darparu gwybodaeth ar gyfer cyfranogwyr cyfredol a chyfranogwyr o’r gorffennol sydd ar ffyrlo o’u swydd, wedi mynd yn ddi-waith neu sy’n gwarchod eu hunain.
- Darparu cefnogaeth a hyfforddiant o bell i gyfranogwyr oedd ar ffyrlo ynghynt ar gyfer dychwelyd i’w gwaith. Er enghraifft, sicrhau eu bod yn llawn ddeall unrhyw amodau gwaith newydd y maent yn dychwelyd iddynt a sut i lynu wrth ganllawiau’r llywodraeth.

- Gwneud asesiadau peryglon ar gyfer cyfranogwyr er mwyn iddynt fedru parhau yn eu gweithle cyfredol neu ar gyfer y rhai hynny sy'n cychwyn gweithio.
- Darparu cyfrifon budd-daliadau lles a chefnogaeth i wneud cais am fudd-daliadau.
- Cynnig cefnogaeth ar gyfer llesiant a gweithgareddau ymwybyddiaeth fyfyriol i helpu cyfranogwyr i ymdopi â chadw o'r neilltu a hyrwyddo iechyd meddwl cadarnhaol.
- Ymgysylltu â chyflogwyr newydd a rhoi gwybodaeth a chefnogaeth i gyflogwyr mewn bodolaeth, er enghraifft, ynghylch staff ar ffyrlo.
- Gweithio gyda phartneriaid yn ein safleoedd interniaeth â chefnogaeth i gefnogi interniaid, darparu gweithgareddau addas, chwilio am/cael gafael ar swydd ac ymgysylltu â dysgwyr newydd ar gyfer rhaglenni interniaeth y bwriedir eu cychwyn yn y flwyddyn academaidd nesaf.

## Beth arall ydym ni'n ei wneud?

- Gweithio gyda phobl eraill i ymchwilio i effaith COVID-19 a chasglu profiadau pobl sydd ag anableddau dysgu a chyflyrau'r sbectrwm awtistig.
- Cynnwys pobl ag anableddau dysgu yn natblygiad holiaduron ymchwilio hawdd eu deall.
- Sicrhau bod gwybodaeth am COVID-19 ar gael mewn diwyg ddealladwy, er enghraifft hawdd ei deall.
- Ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol er mwyn dylanwadu ar bolisi a dyfodol cyflogaeth i'r anabl ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys eirioli ar ran interniaethau â chefnogaeth, prentisiaethau cynhwysol, cyflogaeth â chefnogaeth a hyfforddi ar gyfer swyddi er mwyn eu gwneud yn ddarpariaeth genedlaethol, wedi'i hariannu ledled Cymru.
- Parhau i brisio gwerth gweithgareddau prosiect, llunio a chylchredeg adroddiadau prisio gwerth ac erthyglau rhagbaratoi.

## Atgyfeirio rhywun at 'Engage to Change' yn ystod argyfwng COVID-19

Rydyn ni'n dal i dderbyn atgyfeiriadau at y prosiect felly cofiwch gysylltu â ni os ydych chi'n berson ifanc sydd â diddordeb mewn ymuno â'r prosiect neu'n riant/gofalwr person ifanc sydd â diddordeb mewn ymuno.

Mae meini prawf cymhwystra ar gyfer y prosiect yn aros yr un. Mae'n rhaid i bobl ifainc sy'n cael eu hatgyfeirio at 'Engage to Change':

- Fod ag anabledd dysgu a/neu gyflwr y sbectrwm awtistig
- Bod rhwng 16 a 25 oed
- Bod â chefnogaeth gan deulu neu rwydwaith cefnogi
- Bod ag eisiau gweithio
- Bod yn barod i ymgymryd â hyfforddiant i ddatblygu medrau
- Un ai **beidio â** bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) neu fod mewn perygl o fod yn NEET.

Er mwyn atgyfeirio person ifanc sy'n byw yng **Ngogledd Cymru, gogledd Ceredigion neu ogledd Powys**, cysylltwch ag **Agoriad Cyf.** trwy e-bostio e2c@agoriad.org.uk neu ffonio 01248 361392.

Er mwyn atgyfeirio person ifanc sy'n byw yn **Ne Cymru, de Ceredigion neu dde Powys**, cysylltwch ag '**Elite Supported Employment'** trwy e-bostio tmoore@elitesea.co.uk neu ffonio 07943 866 246.

Am ragor o wybodaeth am 'Engage to Change', ewch i'n gwefan www.engagetochange.org.uk. Gallwch hefyd ein dilyn ar y cyfryngau cymdeithasol:

Twitter @Engage_2_Change

Facebook @engagetochangewales

YouTube Engage to Change.

Darperir prosiect 'Engage to Change' mewn partneriaeth ag Anabledd Dysgu Cymru, Agoriad Cyf., Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan, Prifysgol Caerdydd, 'Elite Supported Employment' ac mewn cydweithrediad â 'DFN Project SEARCH'. Ariennir y prosiect gan Gronfa Gymunedol y Lotri Genedlaethol mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru trwy raglen Ar y Blaen 2.